WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir Fynwy

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen iddo ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Alastair McQuaid a Nick Selwyn, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Sir Fynwy? 04

A yw Cyngor Sir Fynwy'n cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir Fynwy yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella? 10

A yw Cyngor Sir Fynwy yn gwasanaethu pobl yn dda? 15

A yw Cyngor Sir Fynwy yn cefnogi pobl mewn angen? 16

A yw Cyngor Sir Fynwy yn helpu pobl i ddatblygu? 20

A yw Cyngor Sir Fynwy yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo? 23

Beth ddylai Cyngor Sir Fynwy ei wneud? 27


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 28

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy 30

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 32

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Fynwy 33

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir Fynwy 35

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 36

# Pa fath o ardal yw Sir Fynwy?

1 Mae ardal ddaearyddol Sir Fynwy yn cwmpasu 850 $km^2$ a dyma'r seithfed ardal awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae'n cyfrif am 4.1 y cant o holl arwynebedd Cymru. Mae ffiniau dwyreiniol a deheuol Sir Fynwy ar lannau'r Afon Gwy ac aber Hafren. Mae'r sir yn ffinio â Chasnewydd i'r de, Torfaen a Blaenau Gwent i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd.

2 Mae pencadlys gweinyddol y Cyngor wedi'i leoli yn hen Neuadd Sir Gwent yng Nghwmbrân - y tu allan i'w awdurdodaeth ei hun ym mwrdeistref gyfagos Torfaen. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar y gweill i symud pencadlys y Cyngor i swyddfeydd newydd ym Mrynbuga a Magor gan ddechrau yn 2011. Mae'n sir wledig yn bennaf ond mae sawl tref bwysig ynddi, sef y Fenni, Caldicot, Cas-gwent, Trefynwy a Brynbuga.

3 Ar sail amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad (2009), mae gan Sir Fynwy boblogaeth o 87,967, yn byw mewn oddeutu 38,000 o aelwydydd. Dyma'r pumed cyngor lleiaf poblog yng Nghymru. Mae ganddi gyfran ychydig yn is o bobl o oedran gweithio a chyfran uwch o bobl o oedran ymddeol na Chymru yn gyffredinol. Dengys amcan gyfrifon canol blwyddyn 2009 bod 16,099 o blant (0 i 16 oed) ac 18,025 o bobl dros 65 oed yn yr ardal. Rhagwelir y bydd y boblogaeth leol yn cynyddu saith y cant erbyn 2033.

ardal ddaearyddol
850 $km^2$
/////////////

poblogaeth
87,967
/////////////

16,099 yn 0-16 oed
18,025 yn >65 oed
/////////////

# A yw Cyngor Sir Fynwy'n cael ei reoli'n dda?

4 Mae rheoli sefydliad mor fawr gyda'i ystod amrywiol o wasanaethau yn waith cymhleth iawn. Llynedd, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad Asesiad Corfforaethol yn rhoi sylwadau ar drefniadaeth a rheolaeth y Cyngor. Cyflwynir ein canfyddiadau o'r adroddiad hwnnw yn Atodiad 3 o'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad Asesiad Corfforaethol cyfan ar gael ar wefan y Cyngor neu wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

5 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod y Cyngor yn datblygu dull uchelgeisiol o sicrhau gwelliannau ar gyfer ei gymunedau mewn hinsawdd ariannol anodd. Bydd angen arweiniad a rheolaeth glir a chyson i sicrhau ei fod yn cyflawni'r manteision a ragwelir.

6 Mewn geiriau eraill, mae'r Cyngor yn ymateb yn dda yn y dirwasgiad ac yn datblygu cynlluniau i helpu pobl leol. Mae angen sicrhau ei fod yn rheoli sut mae'n datblygu a darparu'r cynlluniau hyn os yw am gyflawni'r holl bethau y mae'n dymuno ac angen eu cyflawni.

7 Mae'r Cyngor wedi darparu gwasanaethau da yn y gorffennol, ond heb ystyried ffyrdd o'u gwella bob tro. Erbyn hyn, mae'r Cyngor yn ystyried ffyrdd o arbed arian a darparu gwell gwasanaethau ar gyfer pobl leol drwy newid y ffordd y mae'n gweithio a'r hyn y mae'n ei wneud. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid iddo reoli'r newidiadau hyn yn dda os yw pobl leol am elwa arnynt.

8 Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda ac mae'n gwneud llawer o newidiadau pwysig. Mae'n gweithio'n dda gyda llawer o asiantaethau lleol eraill fel bwrdd iechyd Aneurin Bevan a heddlu Gwent. Mae'n rheoli ei arian yn dda ac ar hyn o bryd mae'n cytuno ar ei ddull o arbed arian ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn deall yr hyn sydd angen iddo ei wneud ac mae'n datblygu cynlluniau'n gymharol dda, ond nid yw'n gallu dangos yn glir bob amser bod ei gamau gweithredu'n gwella pethau ar gyfer pobl leol. Er mwyn gwella gwasanaethau yn y dyfodol, mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i wella ei ddulliau o weithio gyda chyrff sector cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill, ei ffordd o ddefnyddio staff a rheoli eu gwaith a'i ffordd o ddefnyddio adeiladau'r cyngor i ddarparu gwasanaethau.

9 Oherwydd yr hinsawdd ariannol, mae bron i bob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu gostyngiadau o ran cyllid. Cyllid refeniw yw'r arian y mae cynghorau'n ei wario ar gynnal a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn gweld gostyngiad o tua £1.662 miliwn (1.7 y cant) yn y cyllid refeniw y bydd yn ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl ystyried chwyddiant, mae hynny'n golygu gostyngiad gwirioneddol o tua £3.5 miliwn (3.58 y cant). Gan fod Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi'r cyllidebau hyn ar gyfer blwyddyn ar y tro, mae'n anodd bod yn sicr am yr effaith dros y tymor canolig. Dengys cynlluniau gwario Llywodraeth y Cynulliad y bydd cyfanswm gwariant refeniw ar lywodraeth leol 3.3 y cant yn llai yn 2013-14 nag yn 2010-11 (gostyngiad termau real o 6.7 y cant).[1] I'r Cyngor, mae'r setliad dros dro wedi golygu 3.3 y cant yn llai o refeniw wrth gymharu tebyg â thebyg a 20.5 y cant yn llai o gyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2011-12. Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos gostyngiadau pellach mewn termau real yng nghyllid refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

10 Mae'r Cyngor yn ceisio gwella hygyrchedd ei wasanaethau drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae hefyd wedi gweithredu cynllun ariannol tymor canolig i gyfrif yn rhagweithiol am y cyfyngiadau

1 Mae termau real yn golygu bod effaith chwyddiant yn cael ei hystyried. Mae sawl ffordd o fesur chwyddiant. Mae'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau sector cyhoeddus yn deillio o gyfres datchwyddiant CMC y Trysorlys.

ariannol y bydd yn eu hwynebu yn y blynyddoedd nesaf. Yn ddiweddar, mae wedi ad-drefnu ei strwythur uwch reoli drwy greu Tîm Arweinyddiaeth newydd (gweler Atodiad 2 am fanylion).

11 Yn ddiweddar, cadarnhaodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol bod datganiadau ariannol y Cyngor yn foddhaol ar y cyfan a bod arian wedi'i wario'n briodol. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 4.

12 Mae'r rhan fwyaf o'r arian y mae'r Cyngor yn ei wario'n dod o lywodraeth ganolog, sy'n darparu cyllid refeniw a chyllid cyfalaf. Cyllid refeniw sy'n talu am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a'r staff y mae'r Cyngor yn eu cyflogi. Defnyddir cyllid cyfalaf i dalu am bethau fel adeiladau a ffyrdd. Yn ogystal â'r arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan lywodraeth ganolog, mae'r Cyngor yn codi arian drwy'r dreth gyngor a ffioedd a thaliadau. Gall hefyd greu incwm drwy werthu tir ac adeiladau sy'n eiddo iddo ond nad oes eu hangen bellach.

13 Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i'r Cyngor bennu cyllideb refeniw fantoledig i reoli o fewn yr arian sydd ar gael, ac yna mae'n monitro gwariant gwirioneddol yn ei herbyn. Mae'r Cyngor wedi bod ag un o'r cyllidebau refeniw isaf o blith cynghorau Cymru yn y 10 mlynedd ddiwethaf[2]. Yn 2009-10, pennodd gyllideb refeniw o £141.4 miliwn, ac mae hyn yn y chwartel isaf o gynghorau Cymru. Yn 2010-11, roedd y gyllideb yn £149.5 miliwn.

14 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a gwella ei gynlluniau ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Ers ein hadroddiad Asesiad Corfforaethol ym mis Awst llynedd, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith pellach i asesu ei adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn tyfu i £151.8 miliwn y flwyddyn nesaf a £152.5 miliwn y flwyddyn wedyn. Fodd bynnag, ar yr un pryd mae'r Cyngor yn rhagweld diffyg refeniw cynyddol o £8.7 miliwn yn 2011-12 sy'n cynyddu i £28 miliwn erbyn 2014-15. – Arddangosyn 1. Ers hynny cyflwynwyd cynigion y gyllideb gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2010 gan leihau'r diffyg i £0.491 miliwn ar gyfer 2011-12. Bydd y Cabinet yn penderfynu'n derfynol ar y gyllideb ym mis Chwefror ac mae gwaith pellach ar y gweill er mwyn pennu cyllideb cytbwys.


15 Mae cyllideb y Cyngor wedi'i rheoli'n dda yn y blynyddoedd diwethaf gyda chyllidebau mantoledig ar lefel cyfarwyddiaethau a lefel corfforaethol. Mae hyn, ynghyd â hanes da o wario o fewn adnoddau sydd ar gael, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y Cyngor wrth iddo ddechrau ar gyfnod o lymder ariannol a newid sylweddol.

16 Os yw am sicrhau'r lefel o arbedion y mae'n ei rhagweld, mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol. Mae ei gyllideb yn cynnwys arian a godir yn lleol gan y Cyngor a grantiau gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn 2008-09, dim ond 53.5 y cant o wariant oedd yn deillio o grantiau'r llywodraeth. Cyfartaledd Cymru oedd 62.8 y cant, felly, o'r holl gynghorau yng Nghymru, mae'r Cyngor yn un o'r rhai lleiaf dibynnol ar grantiau'r llywodraeth fel cyfran o'i wariant refeniw.

2 Gwefan StatsCymru, Gofynion Cyllideb Refeniw, fesul awdurdod lleol (£ mil) 2000-01 i 2009-10

**Arddangosyn 1: Cynllun Ariannol Tymor Canol Gwariant ac incwm y gyllideb a ragwelir 2010-11 – 2014-15**[3]

Mae angen i'r Cyngor bennu cyllideb fantoledig i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb.




*Ffynhonnell: Cyngor Sir Fynwy: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2011-2015, Hydref 2010*

17 Yn sgil hynny, y dreth gyngor fel cyfran o wariant refeniw cyfan yw'r uchaf yng Nghymru. Yn 2010-11, mae'n cyfrif am 30 y cant o wariant refeniw'r Cyngor neu £42.7 miliwn. Mae ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac ar ddiwedd mis Mawrth 2010, roedd yn £3.662 miliwn. Yn gymesur, dyma oedd un o'r lefelau uchaf o dreth gyngor ddyledus fesul annedd drethadwy o holl gynghorau Cymru. Roedd graddfa casglu'r dreth gyngor o fewn blwyddyn fel canran o'r ddyled yn 96.7 y cant yn 2008-09 a oedd wedi disgyn fymryn i 96.5 y cant yn 2009-10[4]. Fel rheol, bydd y Cyngor wedi cynyddu'r raddfa gasglu i 99 y cant pan gyfrifir y taliad a dderbynnir ar ôl mis Mawrth.

18 Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r ôl-ddyledion i sicrhau ei fod yn derbyn yr holl incwm sy'n ddyledus iddo i ategu ei benderfyniadau i ostwng cyllidebau.

19 Mae'r Cyngor wedi datblygu amrywiaeth o opsiynau i sicrhau arbedion. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u gweithredu, fel yr adolygiad o uwch reolwyr y mae'r Cyngor wedi adrodd arno a fydd yn arwain at arbedion blwyddyn lawn o £900,000. Mae eraill wedi'u datblygu i raddau gwahanol ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol. I bob diben, mae'r cynigion yn ymwneud â phedwar maes cyffredinol:

3 Cyngor Sir Fynwy, Cynllun Ariannol Tymor Canol 2011-2015.

4 Nid yw ôl-ddyledion y dreth gyngor a'r tâl cymunedol blaenorol a gesglir wedi'u cynnwys. Mae'r ffigurau yn dangos cyfanswm net ar ôl didyniadau megis budd-dal treth gyngor ac yn cynnwys casglu treth gyngor o fewn y flwyddyn yn unig. Mae'r wybodaeth yn deillio o Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad, SDR 90/2010. Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn 2009-10. 17.6.10

- Cyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyfredol i wneud arbedion a gwelliannau - er enghraifft, gwaith ledled Gwent ar gynorthwyo pobl hŷn sy'n agored i niwed i gadw eu hannibyniaeth. Mae hefyd yn cynnwys datgomisiynu gwasanaethau neu elfennau gwasanaethau nad ydynt yn statudol neu y gallai sefydliadau eraill eu darparu yn well. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y gall arbed £1.375 miliwn yn 2011-12 drwy'r ffrwd waith hon.
- Gweddnewid y busnes – newid telerau ac amodau staff a gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud ei waith. Er enghraifft, cyfran uwch o staff yn gweithio o bell ac o gartref. Rhagwelir arbedion o £3.857 miliwn drwy weddnewid busnes yn 2011-12.
- Gwella'r dull o reoli asedau – gwneud gwell defnydd o ystadau, swyddfeydd a chyfarpar a gostwng gwariant ar gyfleusterau. Mae hyn yn cynnwys adleoli Neuadd y Sir o Gwmbrân i Frynbuga a allai arwain at arbedion refeniw parhaus sylweddol.
- Arbedion trysorlys – Mae'r Cyngor yn credu y bydd ei waith ar reoli asedau ac arbedion trysorlys yn rhyddhau £0.2 miliwn yn 2011-12.

20 Mae'r Cyngor yn datblygu opsiynau a chynlluniau penodol ar gyfer gostwng gwariant a gweddnewid sut y cyflenwir gwasanaethau. Mae'n rhagweld y bydd y rhain yn arwain at arbedion cost sylweddol, tua £7.9 miliwn yn 2011-12 a hyd at £10 miliwn y flwyddyn o 2014-15 ymlaen. Er y cynlluniau hyn, mae'r Cyngor yn dal i ragweld - ar sail y rhagdybiaethau cyfredol o ran gwariant, incwm a'r arbedion a ragwelir - y bydd diffyg gweddilliol yn y gyllideb. Yn 2011-12, amcangyfrifir y bydd hwn yn £0.5 miliwn ac yn 2012-13 ymlaen rhwng £4.738 miliwn a £5.9 miliwn. Mae Cabinet y Cyngor yn gweithio ar hyn o bryd ar gynigion terfynol y gyllideb a fydd yn sicrhau cyllideb fantoledig ar gyfer 2011-12 a bwlch o £2.7 miliwn sy'n parhau ym mlwyddyn dau, tri a phedwar y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

21 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo edrych ar opsiynau eraill i sicrhau arbedion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran y ffordd y mae'n cynnig mynd i'r afael ag anawsterau ariannol sy'n wynebu pob corff sector cyhoeddus. Mae'n cynnig ymgynghori ar gynnydd o dri y cant yn y dreth gyngor o dri y cant yn 2011-12 ac mae'r Cabinet wedi cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwariant uniongyrchol mewn ysgolion, gwasanaethau i blant ac oedolion agored i niwed, a gweithgareddau sy'n cynorthwyo i greu swyddi a chyfoeth yn yr economi leol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ei wasanaethau eraill yn ysgwyddo cyfran uwch o ostyngiadau yn y gyllideb drwy wneud hyn.

22 Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen am adnoddau cyfalaf sylweddol i wella seilwaith, datblygu gwasanaethau newydd ac uwchraddio cyfleusterau cyfredol. Mae'r gofyniad cyfalaf a ragwelir yn £167.2 miliwn ac mae'n cynnwys dros £70 miliwn i barhau gyda'i waith yn moderneiddio ysgolion, ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno Cynllun Trefniadaeth Ysgolion manwl i Lywodraeth y Cynulliad sy'n nodi ei weledigaeth tymor canol ar gyfer ei ystâd ysgolion. Bydd y Cyngor hefyd angen £51 miliwn ar gyfer gwella priffyrdd ac £17 miliwn ar gynnal a chadw eiddo yn sgil arolygon cyflwr stoc.

23 Fel gydag arian refeniw, mae'n debyg y bydd lefel y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor hefyd yn gostwng yn sylweddol. Gan fod cynghorau yn gwneud cynigion i Lywodraeth y Cynulliad am gyllid cyfalaf, mae'n amhosibl bod yn hollol glir ynglŷn â faint y bydd pob cyngor yn ei dderbyn. Bydd cyfanswm y cyfalaf a fydd ar gael i gynghorau Cymru yn gostwng 14 y cant yn 2011-12 (gostyngiad termau real o 18.5 y cant). Nid oes ffigurau swyddogol ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12, ond mae'n debyg y bydd yn unol â gostyngiad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn cael ei dorri tua 34 y cant (oddeutu 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 and 2013-14.[5]

24 Yn hanesyddol, mae gan y Cyngor un o'r lefelau isaf o arian ar gael i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf yng Nghymru. Yn 2008-09, roedd ei wariant cyfalaf yn £16.1 miliwn, un o'r lefelau isaf o holl gynghorau Cymru[6]. O'r ffigur hwn, darparwyd £7 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad. Dyna'r dyraniad isaf ar gyfer unrhyw gyngor yng Nghymru ac roedd yn llawer is na chyfartaledd y grant ar gyfer pob cyngor o £23.7 miliwn. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae swm yr arian a godwyd gan y Cyngor drwy werthu asedau wedi gostwng o £7.6 miliwn yn 2007-08 i £1.8 miliwn yn 2008-09. Ariannodd y Cyngor £1.5 miliwn o gyllid cyfalaf o'i gyllideb refeniw yn 2008-09, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o £4.7 miliwn. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cytuno ar ei gyllidebau cyfalaf ar gyfer 2011-12 hyd at 2013-14 ac wedi cymeradwyo cyllideb cyfalaf uwch o £23.155 miliwn ar gyfer 2011-12.

5 Ystyr termau real yw bod effaith chwyddiant wedi'i gyfrifo. Mae sawl mesur o chwyddiant. Mae'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus yn dod o gyfres datchwyddiant CMC y Trysorlys.

6 Gwefan Stats Cymru, gwariant Cyfalaf (£,000) 2009-10

# A yw Cyngor Sir Fynwy yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?

## Cynllunio i wella'r pethau pwysicaf

25 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella ei wasanaethau a sut bydd yn mynd ati i wneud hynny. Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Gwella Corfforaethol ym mis Medi 2010. Mae'n bwriadu cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion yn y dyfodol yn ôl pum canlyniad strategol cyffredinol. Mae'r rhain yn gyson â blaenoriaethau strategol cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ac yn ceisio sicrhau bod pobl Sir Fynwy yn:

- byw'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed;
- byw bywydau iach a bodlon;
- elwa ar addysg, hyfforddiant a datblygu eu sgiliau;
- elwa ar economi sy'n ffynnu ac sy'n cefnogi menter a thwf cynaliadwy; ac
- elwa ar amgylchedd amrywiol, bywiog a chynaliadwy.

26 Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei gynlluniau allweddol eraill - er enghraifft, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc - i bennu amrywiaeth o dargedau ac amcanion ar gyfer gwella. Mae'n datblygu cynlluniau pellach y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn eu defnyddio i gydgysylltu gwelliannau yn ôl y pum canlyniad strategol. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cynnig newid ei ddull gweithredu o ran datblygu economiaidd ac adfywio ac yn ddiweddar mabwysiadodd ei bolisi Green Deal for Monmouthshire - fframwaith i weithredu mentrau ac ymyriadau carbon isel yn y sir.

27 Er mwyn sicrhau bod y cynghorau yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i'r pethau sydd bwysicaf i'r bobl leol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau bennu amcanion gwella ac yna adrodd ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor wedi penderfynu canolbwyntio ar naw amcan gwella:

- gostwng effaith trais sy'n gysylltiedig ag alcohol, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled cymunedau yn Sir Fynwy;
- dod ag asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sector annibynnol at ei gilydd mewn model unigol o wasanaethau cymunedol fel rhan o Brosiect Eiddilwch Gwent;
- gwella amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed a'u gofalwyr;
- archwilio ansawdd tai i ddiwallu anghenion pobl hŷn;
- datblygu darpariaeth Dechrau'n Deg yn Overmonnow a gogledd y Fenni;
- cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i godi safonau, gwella sgiliau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar berfformiad addysgol;
- annog datblygiad economi leol fwy amrywiol, cadarn a llewyrchus a llunio strategaeth creu swyddi;
- cydweithio â phartneriaid i ddatblygu Prosiect Gwyrdd i ddatblygu opsiynau cynaliadwy yn lle tirlenwi; a
- hyrwyddo'r gwaith o leihau allyriannau carbon o adeiladau'r Cyngor a gweithio gydag eraill i leihau allyriannau yn y gymuned ehangach.

28 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl dechrau Ebrill bob blwyddyn. Yn y flwyddyn drosiannol hon, oedodd y Cyngor wrth gyhoeddi ei amcanion gwella er mwyn eu cydlynu gyda gwaith ar gytuno ar ganlyniadau blaenoriaeth. Mabwysiadodd y Cyngor ei amcanion gwella ddiwedd mis Medi 2010 ac mae'r rhain wedi'u nodi yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol. Gellir lawrlwytho'r Cynllun Gwella Corfforaethol o wefan y Cyngor neu gael copi caled ar gais. Ym mis Hydref 2010, ar ôl mabwysiadu ei Gynllun Gwella Corfforaethol, gweithiodd y Cyngor ymhellach ar ei amcanion gwella a'u diwygio drwy gynyddu nifer y blaenoriaethau o saith i naw a newid ffocws chwech o'r saith amcan gwreiddiol i raddau amrywiol.

29 Wrth bennu ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11, ystyriodd y Cyngor ganlyniadau gweithgarwch ymgynghori a oedd yn bodoli, er enghraifft y gwaith a wnaed ar y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Credwn, yn y dyfodol, fod angen i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella a'i Gynllun Gwella Corfforaethol yn gynnar ym mhob blwyddyn ariannol i sicrhau bod dinasyddion yn deall beth yw blaenoriaethau'r Cyngor a pha fanteision y gallant eu disgwyl. Dylai hefyd sicrhau bod pobl leol a rhanddeiliaid yn cael eu hymgynghori ynglŷn â'r cynlluniau a'r amcanion hyn er mwyn iddynt gael lleisio'u barn.

30 Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu sydd â'r nod o gynorthwyo i gyflawni'r amcanion strategol hyn. Yn y gorffennol, mae gwasanaethau unigol sy'n cyhoeddi cynlluniau datblygu a chyflenwi blynyddol wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Corfforaethol. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi manylion y camau gweithredu, rhaglenni gwaith a blaenoriaethau gwasanaeth i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol a sicrhau gwelliannau'n gyffredinol. Mae cyfrifoldeb dros gamau gweithredu a thargedau'r cynllun datblygu a chyflenwi wedi'i ddatganoli i dimau gwasanaeth ac unigolion ac mae'r gwaith cyflenwi yn cael ei fonitro drwy'r Cynllun Adolygu a Datblygu Gweithwyr Cyflogedig.

31 Daethom i'r casgliad yn ein Hasesiad Corfforaethol bod y cynlluniau datblygu a chyflenwi yn aneglur ac anghyson, ac yn aml, nid oeddent yn adlewyrchu blaenoriaethau gwella corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cyngor ywedi dechrau newid ei strwythur cynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n well ar sicrhau'r gwelliannau sydd bwysicaf i bobl leol. Bydd hyn yn golygu cael cynlluniau gwasanaeth yn lle'r cynlluniau datblygu a chyflenwi.

32 Newid pwysig wrth ddatblygu'r system newydd fydd sefydlu cydlyniad clir rhwng perfformiad staff unigol a'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor cyfan, gan gynnwys yr amcanion gwella. Bydd cydlyniad o'r fath yn galluogi'r Cyngor i bwysleisio atebolrwydd unigolion am berfformiad; mynd i'r afael yn gyson â pherfformiad gwael a chanolbwyntio ar sbarduno gwelliannau. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd y dull newydd hwn yn cynorthwyo'r Cyngor i reoli ei berfformiad a chyflawni ei flaenoriaethau a byddwn yn edrych ar yr agwedd hon yn fanylach yn y flwyddyn nesaf.

33 Rydym wedi asesu amcanion gwella'r Cyngor i farnu a yw'n glir sut bydd pobl yn elwa. Daethom i'r casgliad nad yw'r mesurau llwyddiant yn gyffredinol wedi'u diffinio'n dda ac nad yw'n amlwg bob tro pa fanteision a geir yn y dyfodol. Gan hynny, ni fydd y Cyngor yn gallu gwneud asesiadau teg a chywir o gynnydd tuag at yr amcanion a sut mae pethau wedi gwella ar gyfer pobl leol. Felly, bydd yn parhau'n anodd i'r Cyngor fesur ei gyfraniad at amcanion lleol cyffredinol fel cynyddu cyfleoedd gwaith. Mae angen i'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n bwriadu mesur ei effaith.

34 Gwelsom fod y Cynllun Gwella Corfforaethol yn gyffredinol yn brin o ddulliau priodol o fesur perfformiad ac nad oedd llinellau sylfaen ar gyfer mesur gwelliant dros amser ar gyfer llawer o'r amcanion gwella, er enghraifft, yr amcanion a oedd yn ymwneud â phrosiect Eiddilwch Gwent, y Prosiect Gwyrdd, effaith trais sy'n gysylltiedig ag alcohol, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau allyriadau carbon. Yn yr un modd, nid yw'r Cyngor yn darparu gwybodaeth yn gyson am y problemau cyfredol sy'n bodoli, maint yr her sydd angen ei datrys na beth yw'r gwelliannau disgwyliedig. Er enghraifft, nid yw hyn wedi'i egluro yn yr amcan ar gyfer prosiect eiddilwch Gwent, gwella'r amrywiaeth o wasanaethau a'u hansawdd ar gyfer pobl agored i niwed a'u cynhalwyr a thai ar gyfer pobl hŷn.

35 Nodir ein hasesiadau o'r amcanion gwella unigol isod.

## Dangos sut mae pobl yn elwa ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud

36 Aseswyd trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer gwelliannau hefyd. Ar y cyfan, nid oedd y Cyngor yn ymgynghori â'i amrywiaeth lawn o randdeiliaid. Dywedodd y Cyngor bod rhai cymunedau wedi dylanwadu ar ei ddewis o rai amcanion gwella, ond ni chyflwynodd unrhyw dystiolaeth o ymgynghori rheolaidd, systematig. Fodd bynnag, ers hynny mae wedi croesawu adborth gan drigolion ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r sianelau sy'n bodoli iddynt roi sylwadau ar ei flaenoriaethau a'i amcanion gwella.

37 Gwelwn dystiolaeth glir fod y Cyngor ar gyfnod pwysig o newid ac yn ceisio canolbwyntio ei flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwella ar ganlyniadau sy'n bwysig i unigolion a chymunedau. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn newid ei strwythurau'n sylfaenol ac felly mae rhai elfennau digyswllt sydd angen sylw. Er enghraifft, nid yw cynlluniau'r amcanion gwella yn nodi'n glir beth yw cost y gweithgareddau arfaethedig, beth yw ffynhonnell yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer pob tasg, y cyfrifoldebau ac atebolrwydd, y trefniadau adrodd a rheoli, amserlenni darparu neu gerrig milltir i nodi cynnydd. Mae'r Cyngor yn derbyn bod mwy o waith i'w wneud ac mae wedi creu swydd ar gyfer Pennaeth Gwelliannau i roi'r arweiniad angenrheidiol yn y meysydd hyn. Yn ddiweddar, mae hefyd wedi mabwysiadu model newydd ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni.[7]

7 Cyngor Sir Fynwy, Papur y Cabinet, A revised Programme Structure for the Council, 5 Ionawr 2011.

38 Mae angen i bob Cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda os yw am ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud yn well fyth. Mae gan y Cyngor systemau sefydledig ar gyfer adrodd gwybodaeth am berfformiad, ond o edrych ar y dangosyddion perfformiad diweddaraf, mae'n amlwg nad oedd ansawdd y wybodaeth a'r systemau a ddefnyddiwyd i'w chasglu cystal ag yr oeddent wedi bod yn y blynyddoedd blaenorol.

39 Nid yw'r dangosyddion strategol cenedlaethol[8] y mae'n ofynnol i bob Cyngor adrodd arnynt o reidrwydd yn darparu sail dda ar gyfer dangos bod pobl leol ar eu hennill yn sgil yr hyn y mae'n ei wneud, faint mae gwasanaethau yn ei gostio neu ar gyfer cymharu pa mor dda y mae gwahanol gynghorau yn gwasanaethu pobl. Fodd bynnag, maent yn parhau yn un o'r ychydig ffynonellau data cymharol ar berfformiad cynghorau yng Nghymru sydd ar gael i'r cyhoedd ei dadansoddi.

40 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod 38 Dangosydd Strategol Cenedlaethol sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau. Ar y cyfan, mae perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ddiwethaf wedi gwella mewn 21 o'r dangosyddion strategol; wedi gwaethygu mewn chwech; a heb newid mewn naw. Roedd y gwasanaethau hynny a berfformiodd yn dda yn cynnwys gofal cymdeithasol oedolion, tai a rheoli gwastraff. Mae'r Cyngor wedi pennu rhai targedau sy'n cefnogi dirywiad mewn perfformiad ar gyfer 2010-11 ac mae'n amlwg ar y sail hon nad yw'n disgwyl gweld gwelliannau o ran y dangosyddion strategol hyn. Er enghraifft, dangosyddion ar gyfer tai (disgwylir i'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith rhwng dweud eich bod yn ddigartref a chyflawni dyletswydd i ddarparu ar gyfer aelwydydd y cafwyd eu bod yn statudol ddigartref godi o 207 diwrnod i 235 diwrnod) ac addysg (mae targed ar gyfer pwyntiau cyfartalog am gymwysterau allanol pobl 16 oed, mewn sefydliadau addysg a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi newid o 382 yn 2009-10 i darged o 358 yn 2011-12).

41 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau wella'n barhaus yn ôl pob un o'r dangosyddion strategol cenedlaethol. Mae gostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus yn golygu y bydd angen i bob cyngor wneud penderfyniadau pendant am flaenoriaethau, a allai arwain at ddirywiad yn eu perfformiad mewn rhai meysydd. Dylai'r Cyngor nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer meysydd nad ydynt yn cael blaenoriaeth er mwyn gallu monitro perfformiad, er mwyn sicrhau bod safonau gwasanaeth derbyniol yn cael eu cynnal.

42 Cynhaliwyd adolygiad o dystiolaeth y Cyngor i Lywodraeth y Cynulliad i'w gynorthwyo i gyflawni targedau ei gytundeb gwella mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Daethom i'r casgliad, ar y cyfan, fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei gytundeb gwella, ond nid oedd ychydig o dargedau wedi'u cyflawni'n llawn a gallent fod wedi bod yn fwy heriol.

43 Nid yw'n glir pa mor dda mae'r Cyngor yn perfformio o gymharu ag eraill gan nad yw'r Cyngor yn defnyddio llawer o'r wybodaeth i gymharu ei berfformiad gyda chynghorau eraill yn ei adroddiadau cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn amlygu perfformiad yn ôl cyfartaleddau Cymru, ond nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth am yr amrywiaeth o berfformiadau a gyflawnwyd gan

8 Caiff pob Dangosydd Strategol Cenedlaethol ei gasglu gan bob awdurdod lleol a'u hadrodd yn eu Cynlluniau Gwella. Mae'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol allweddol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol gasglu a chyhoeddi data ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, o dan Orchymyn Llywodraeth leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) 2008.

gynghorau ar ddangosyddion unigol neu safle'r Cyngor o gymharu ag eraill. Golyga hyn nad yw dinasyddion yn gallu barnu pa mor dda y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

44 Hefyd, roedd y wybodaeth am berfformiad yn tueddu i ganolbwyntio ar faint mae'r Cyngor yn ei wneud yn hytrach nag a yw'r perfformiad yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau ar gyfer pobl. Yn sgil hynny, nid yw'r Cyngor yn gwybod yn iawn faint o effaith mae gwasanaethau wedi'i chael ar unigolion a chymunedau, ac ni all bob amser wybod a yw'n darparu gwerth gwirioneddol am arian ym mhob un o'i wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy weithredu a chyflwyno'n raddol ddull newydd ar gyfer rheoli ei berfformiad, sef Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau. Bydd hyn yn ei alluogi i gysylltu perfformiad yn agosach â'r canlyniadau y mae'n ceisio'u cyflawni drwy fesur gweithgarwch yn ôl tri mater craidd - faint o waith a wnaed; pa mor dda y gwnaethpwyd y gwaith; ac a oes unrhyw un ar ei ennill yn sgil y gwaith. Dylent hefyd ddatblygu dangosyddion cost perthnasol. Rydym hefyd yn cydnabod na ellir mesur gwelliannau mewn llawer o'r amcanion hyn yn gyflym.

# A yw Cyngor Sir Fynwy yn gwasanaethu pobl yn dda?

45 Rydym yn gobeithio defnyddio Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol i greu darlun graddol o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Byddwn bob blwyddyn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor a'u cynnydd yn ôl rhai o'i amcanion ar gyfer gwelliant mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yn Sir Fynwy sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r prif wasanaethau y mae cynghorau yn eu darparu i'w dinasyddion. Dyma'r agweddau:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo.

46 Yn asesiad eleni, rydym wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn ei wneud hyd yma ar ei amcanion gwella er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor, ac eraill, mewn gwell sefyllfa'r flwyddyn nesaf i ddeall i ba raddau y mae perfformiad wedi gwella. Rydym yn cydnabod bod hon yn flwyddyn o newid wrth i'r Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn llawn.

47 Nid nod yr adroddiad hwn yw rhoi darlun llawn o berfformiad y Cyngor ar draws yr amrywiaeth o swyddogaethau y mae'n eu cyflawni a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu gan fod Cynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor yn rhoi llawer o wybodaeth am hyn. Yn hytrach, mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar feysydd penodol y mae'r Cyngor wedi dweud ei fod am eu gwella, sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hynny a sut bydd yn mesur ei berfformiad.

# A yw Cyngor Sir Fynwy yn cefnogi pobl mewn angen?

48 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau proffesiynol ynglŷn â gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo gwelliant ymysg y darparwyr gwasanaethau. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd, mae fframwaith newydd ar waith ar gyfer arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, eu gwerthuso a'u hadolygu.

49 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna, bydd AGGCC yn cynnal adolygiad a dadansoddi tystiolaeth i ategu'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, ceir arolygiad unigol a chynllun adolygu ar gyfer pob cyngor. Cyhoeddir llythyr bob blwyddyn gan yr AGGCC yn nodi'r dadansoddiad a'r cynllun arolygu ac adolygu.

50 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd gyda'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad cyfredol. Nodir yn gryno bwyntiau allweddol y llythyr a anfonwyd ym mis Rhagfyr isod.

51 Mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor wedi cydnabod yn gywir yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau yn y sir er gwaethaf gwell ffactorau iechyd ac economaidd nag mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys pocedi o amddifadedd, natur wledig y sir, a'r proffil oedran newidiol.

52 Mae'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn manteisio ar gysylltiadau gwleidyddol sylweddol, gyda dau aelod etholedig o'r Cabinet yn gyfrifol am feysydd allweddol: mae un yn gyfrifol am y portffolio ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion, iechyd a thai, ac mae'r llall yn gyfrifol am y portffolio ar gyfer plant, pobl ifanc a dysgu. Cydnabyddir mai gwan yw ansawdd yr her a wynebir gan bwyllgorau craffu'r Cyngor ac mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau ar waith i wella hyn. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad cadarn sy'n cael ei roi ar waith ar draws y gyfarwyddiaeth ac sy'n cefnogi gwelliannau parhaus. Mae gwasanaethau plant yn cydnabod rhai bylchau mewn perfformiad. Mae bodloni rhai o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi bod yn dipyn o her i'r Cyngor.

53 Mae gan y Cyngor gysylltiadau cadarn rhwng cynllunio, comisiynu a chontractio. Fodd bynnag, mae'r gwaith o fonitro contractau a gwerthuso ansawdd gwasanaethau yn cael ei rwystro gan y sail adnoddau isel o fewn gwasanaethau contractio. Nid yw'r Cyngor yn gallu dangos effaith mentrau a sut bydd yn cynnal ansawdd ac arloesedd o fewn adnoddau cyfyngedig eto.

54 Mae'r Cyngor yn darparu neu gomisiynu amrywiaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion, ac mae'n mabwysiadu gwerthoedd ac agweddau sy'n pwysleisio ei ddyletswydd i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu trefniadau uwch reoli ar y cyd a gwasanaethau a gynhelir ar y cyd o waith ataliol i becynnau lefel uchel ar gyfer anghenion cymhleth. Yn yr un modd, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n effeithiol gydag awdurdodau lleol eraill ac mae gweithio mewn partneriaeth yn cynorthwyo i gomisiynu gwasanaethau plant ar y cyd.

55 Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc wedi'i integreiddio'n dda â chynlluniau eraill ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, mae cyfle i ddatblygu ymhellach ym maes oedolion, yn enwedig wrth gysylltu asesiadau o anghenion o wahanol grwpiau gwasanaeth a chreu cynllun strategol trosfwaol.

56 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod angen iddo wella cysondeb ei dimau asesu a rheoli gofal. Mae asesiadau arbenigol wedi wynebu oediadau sylweddol, er y gwelliannau o ran prydlondeb asesiadau gan therapyddion galwedigaethol. Mae angen gweithio i wella'r dull o adnabod, asesu a chynorthwyo gofalwyr i gyflawni gwell canlyniadau.

57 Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth effeithiol o raglenni hyfforddiant a sefydlu ar gyfer ei staff ei hun, ac mae'n cydnabod ei gyfrifoldeb dros ddatblygu'r gweithlu ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach. Mae wedi nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu nifer y gofalwyr maeth sy'n derbyn hyfforddiant a chynllunio olyniaeth i sicrhau ei fod yn cynnal gweithlu medrus. Mae trosiant staff wedi cynyddu. Mae hyn wedi achosi problemau difrifol mewn gwasanaethau plant lle mae wedi bod yn anodd recriwtio ar gyfer swyddi gweithwyr cymdeithasol allweddol a rheolwyr tîm.

58 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datganoli cyllidebau i reolwyr gweithredol ac wedi darparu cymorth i'w cynorthwyo i reoli'r rhain. Mae'r pwysau ar y gyllideb o fewn yr adran gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gydnabod yn gorfforaethol ac mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â meysydd o orwario a sicrhau gwell gwerth am arian. Mae cynnal cyflymdra'r newidiadau wedi bod yn dipyn o her. Mae'r cynnydd wedi bod yn araf o ran cyflawni cynlluniau gweithredu blynyddol, gyda rhai amcanion yn cael eu hailadrodd dros nifer o flynyddoedd.

### Amcan gwella – Byddwn yn dwyn ynghyd asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sector annibynnol mewn model unigol o wasanaethau cymunedol fel rhan o Brosiect Eiddilwch Gwent

59 Mae cynorthwyo pobl hŷn i fyw bywyd annibynnol pryd bynnag y bo'n bosibl yn eu cartref eu hunain yn amcan gwella priodol ar gyfer y Cyngor gan fod poblogaeth y Cyngor yn cynnwys nifer sylweddol o bobl hŷn a rhagwelir y bydd y niferoedd yn cynyddu yn y dyfodol. Mae cysylltiad clir rhwng yr amcan gwella a themâu strategaeth gymunedol y Cyngor; ei Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; a blaenoriaeth y Cynllun Gwella Corfforaethol i sicrhau bod pobl yn byw'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

60 Ar gyfer 2010-11, y camau gweithredu y mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni o dan yr amcan gwella hwn yw gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill o fewn rhaglen Eiddilwch Gwent. Gan fod y gwelliannau'n canolbwyntio ar gydweithio agos rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r manteision i ddinasyddion a phobl hŷn yn Sir Fynwy wedi'u nodi'n glir. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cysylltiadau rhwng Prosiect Eiddilwch Gwent a chyflawni ei amcan gwella iechyd a lles cymdeithasol. Mae wedi datblygu cynllun busnes i weithredu prosiect Eiddilwch Gwent ond nid yw wedi arddangos hyd a lled y gwaith a gynigir a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar bobl hŷn yn Sir Fynwy yn y Cynllun Gwella Corfforaethol. Dylai'r Cyngor wneud y cysylltiadau rhwng y cynllun busnes a'r amcan gwella yn gliriach er mwyn iddo allu deall pryd mae pobl leol wedi elwa ar ei weithgareddau.

61 Dengys dangosyddion perfformiad cenedlaethol bod Sir Fynwy yn gweithio'n dda iawn ar hyn o bryd o gymharu â chynghorau eraill o ran ei wasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Er enghraifft, cyfradd y bobl hŷn 65 oed neu hŷn y mae'r awdurdod yn gofalu amdanynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth oedd yr isaf yng Nghymru yn 2010, gyda 13 o bob 1,000. Sir Fynwy yw'r cyngor sydd wedi perfformio orau dros y pum mlynedd diwethaf.

62 Hefyd, yn 2009-10 y Cyngor oedd â'r trydydd perfformiad cymharol gorau o ran y gyfradd oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol. Yn 2010-11, dim ond chwech o bobl a wynebodd oedi cyn gadael yr ysbyty oherwydd nad oedd trefniadau gofal cymdeithasol ar waith – sef y nifer isaf erioed. Mae hyn yn ostyngiad o 300 y cant o 24 yn y flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd, y Cyngor yw'r ail berfformiwr gorau o ran canran y cleientiaid 65+ oed sy'n cael eu cynorthwyo yn y gymuned.

63 Rydym yn cydnabod na all y dangosyddion perfformiad hyn ddarparu darlun llawn o berfformiad gwasanaeth cyfredol neu'r pwysau y mae'r Cyngor yn ei wynebu bob tro. Fodd bynnag, gan nad yw'r Cyngor wedi darparu llinell sylfaen lawnach o berfformiad cyfredol na nodi'n glir sut bydd ei ddinasyddion yn elwa, y rhain yw'r unig fesurau sydd ar gael i farnu perfformiad cyfredol.

## Amcan gwella – Byddwn yn gwella amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed a'u gofalwyr

64 Mae cysylltiad clir rhwng yr amcan gwella hwn a themâu'r strategaeth gymunedol; ei Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; a blaenoriaeth y Cynllun Gwella Corfforaethol i sicrhau bod pobl yn byw'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

65 Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn 2010-11 yn canolbwyntio'n gyffredinol ar sicrhau y bydd gofalwyr yn Sir Fynwy yn gallu cael mwy o gymorth, yn bennaf drwy ddatblygu gwasanaeth ymgyfeillio dan arweiniad gwirfoddolwyr. Y mesur o gynnydd i farnu gwelliannau yw a fydd y Cyngor wedi recriwtio gwirfoddolwyr cyn lansio'r cynllun. Wrth fynd ymlaen, credwn fod angen i'r Cyngor fod yn glir ynglŷn â pha fanteision y mae'n ceisio'u cyflawni i ofalwyr a phennu mesurau priodol i ddangos perfformiad dros amser.

66 Cofnododd y Cyngor y ganran isaf o ofalwyr oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod 2009-10, gyda dim ond 26.5 y cant yn cael cynnig asesiad. Roedd y gwasanaeth hwn yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 80.8 y cant ac yn ostyngiad o 39.3 y cant o berfformiad 2008-09.

## Amcan gwella – Byddwn yn archwilio ansawdd tai i ddiwallu anghenion pobl hŷn

67 Credwn ei bod yn briodol dewis yr amcan gwella hwn. Mae'n cynorthwyo i gyflawni canlyniadau'r Cyngor sef bod pobl yn gallu byw'n ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed; a byw bywydau iach a bodlon. Mae hefyd yn ceisio sicrhau gwelliannau ar gyfer poblogaeth hŷn sylweddol sy'n cynyddu ac mae'n gyson â blaenoriaethau Strategaeth Llety Pobl Hŷn y Cyngor.

68 Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor yn cynnig canolbwyntio ar ddwy ffrwd waith. Bydd un yn edrych ar wella ansawdd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac mae un yn edrych ar sefydlu a threialu dull amgen posibl o ddarparu cymorth tai i bobl hŷn. Credwn fod y rhain yn feysydd priodol i ganolbwyntio gweithgarwch gwella arnynt gan fod gwella amrywiaeth ac ansawdd cymorth ac addasu cartrefi i'w gwneud yn addas i fyw ynddynt yn helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth.

69 Er bod gan y Cyngor Strategaeth Llety a Chefnogaeth i Bobl Hŷn a fu'n destun yngynghori ac y'i mabwysiadwyd yn 2010, nid yw wedi nodi'n glir y camau manwl y mae'n bwriadu eu cymryd ar yr amcan gwella ac felly mae'n anodd barnu beth fydd y manteision ar gyfer pobl hŷn yn Sir Fynwy.

70 Mae rhai mesurau cynnydd da wedi'u cynnwys, fel boddhad defnyddwyr gwasanaethau gyda'r cynllun peilot cymorth tai a gostwng y gyfran o denantiaid sydd ag anghenion cymorth. Ond mae'r mesurau cynnydd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn canolbwyntio'n llwyr ar faterion yn ymwneud â'r broses – er enghraifft, cwblhau'r adolygiad o'r gwasanaeth yn 2010-11 – ac nid yw'n cynnwys unrhyw fesurau canlyniad i ddangos effaith gadarnhaol y gwaith hwn ar fywydau pobl hŷn.

71 Ar hyn o bryd, mae perfformiad y Cyngor o ran y nifer cyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn y chwartel uchaf., gan gofnodi cyfartaledd o 260 diwrnod yn 2009-10. Mae hyn yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru o 349 diwrnod. Ni chofnododd y Cyngor ei berfformiad ar ba mor gyflym y darparodd addasiadau cost isel ar gyfer anheddau preifat yn 2009-10. O ran cymorth i bobl hŷn - sy'n deillio'n bennaf o hanes o sefydlu gwasanaethau cymorth i bobl - mae'r Cyngor yn darparu adnoddau sylweddol, o gymharu ag eraill, ar gyfer gwasanaethau larwm cymunedol a thai gwarchod. Yn 2009-10, roedd yn y chwartel uchaf ac ail uchaf o gynghorau Cymru yn eu trefn o ran y gyfran fesul 1,000 o'r boblogaeth oedd yn derbyn y gwasanaethau hyn.

# A yw Cyngor Sir Fynwy yn helpu pobl i ddatblygu?

72 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu sut maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n bennaf cyfrifol am eu hystod a'u safon, ac maent yn gweithio yn unol â fframwaith a chanllawiau statudol Bwrdd yr Iaith. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith sy'n egluro sut mae'r cynllun wedi cael ei weithredu. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi Bwrdd yr Iaith i gynnig cyngor ar sut gall y Cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliant.

73 Gwelodd Bwrdd yr Iaith nad yw'r Cyngor wedi cyflawni na gwneud cynnydd digonol eto gyda llawer o'r amcanion a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2008. Mae Bwrdd yr Iaith wedi canfod nad yw dogfennaeth etholiadol a gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun. Hefyd, nid oes gan y Cyngor ddigon o ddata dibynadwy i'w alluogi i gynllunio i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, gan roi'r Cyngor mewn perygl o fethu â chydymffurfio a'r Cynllun. Mae rhai mesurau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa, fel datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ac mae'r Cyngor wedi cwrdd â'r Bwrdd Iaith ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

74 Roedd 12.1 y cant o bobl tair oed a hŷn yn Sir Fynwy yn siarad Cymraeg yn 2008, felly mae'n un o'r awdurdodau lleol canolig. Mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi codi a gostwng ers 2001, ac mae wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru ers 2001.

## Amcan gwella – Byddwn yn datblygu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn Overmonnow a gogledd y Fenni i sicrhau bod yr un lefel o wasanaeth yn cael ei chynnig i'r ddwy gymuned

75 Mae canolbwyntio ar blant a gwella darpariaeth gwasanaethau yn flaenoriaeth yn strategaeth gymunedol y Cyngor a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae hefyd yn amcan gwella priodol yng nghyd-destun blaenoriaeth y Cynllun Gwella Corfforaethol bod pobl yn Sir Fynwy yn byw bywyd iach a bodlon. Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor yn gobeithio datblygu'r rhaglen yn Overmonnow i ddarparu'r un lefel o wasanaeth ag a ddarperir yn ardal y Fenni.

76 Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn nodi mai cynyddu nifer ac amrywiaeth y cyfleusterau a ddarperir a nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio'r rhaglen Dechrau'n Deg yn Overmonnow yw'r canlyniad y mae'r Cyngor am ei gyflawni wrth fodloni'r amcan gwella hwn. Er bod y rhain yn fesurau da i ddangos pa mor dda y mae'r cynllun yn cael ei ddefnyddio a pha lefel gwasanaeth a ddarperir, byddai'n well pe bai'n cynnwys asesiad o effaith ar unigolion.

## A yw'r Cyngor yn gwella sgiliau plant a phobl ifanc?

### Amcan gwella - Byddwn yn cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a diwygio'r ffordd y darperir addysg. Byddwn yn gwneud hyn i godi safonau addysg, gwella sgiliau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar berfformiad addysgol

77 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn arolygu i ba raddau y mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan Estyn raglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn-ysgol megis meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Rydym yn cydweithio ag Estyn i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu.

78 Mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, fel yr amlygir yn y strategaeth gymunedol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae'r amcan gwella hwn hefyd yn flaenoriaeth yng nghyd-destun amcan strategol y Cynllun Gwella Corfforaethol bod pobl yn Sir Fynwy yn elwa ar addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau.

79 Mae'r Cyngor yn cynnig mesur llwyddiant ei waith drwy ostwng canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt yn parhau mewn addysg lawn amser, hyfforddiant na chyflogaeth. O ystyried bod nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Sir Fynwy wedi cynyddu o bedwar y cant yn 2004 i bump y cant yn 2009, credwn fod hwn yn faes priodol i'w wella. Mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio ar alluogi mwy o bobl ifanc 16-18 oed i elwa ar astudiaethau academaidd, hyfforddiant galwedigaethol a datblygu sgiliau drwy weithio gydag ysgolion, Coleg Gwent a Gyrfa Cymru i gefnogi pobl ifanc i ddilyn y cyrsiau o'u dewis.

80 Fodd bynnag, nid oes unrhyw gamau gweithredu na mesurau perfformiad wedi'u cynnwys gan y Cyngor yn y Cynllun Gwella Corfforaethol sy'n ymwneud ag elfennau eraill o'r amcan gwella. Nid oes mesurau penodol sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol neu sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael ag effaith tlodi ar berfformiad addysgol.

81 Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda ar y cyfan o gymharu â chynghorau eraill Cymru mewn perthynas â'i wasanaeth addysg. Er enghraifft:

- Mae'r ganran o oedolion oed gweithio heb gymwysterau wedi gostwng yn raddol ers 2001, ac mae pump i wyth pwynt canrannol yn is na chyfartaledd Cymru, a pherfformiodd yn well na phob cyngor arall yn 2008-09. Yn yr un modd, mae canran yr oedolion oed gweithio gyda chymwysterau lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol wedi codi'n raddol ers 2001, ac mae chwech i 12 pwynt canrannol yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2008-09, y Cyngor oedd yr ail gyngor gorau o ran ei berfformiad yng Nghymru.

- Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni cyrhaeddiad Dangosydd Pwnc Craidd yn CA2 mewn Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi codi ers 1999. Y Cyngor oedd y trydydd perfformiwr gorau yng Nghymru yn 2009-10. Yn yr un modd, y ganran o ddisgyblion a gyflawnodd Ddangosydd Pwnc Craidd yn CA3 yn Sir Fynwy oedd y gorau yng Nghymru yn 2009-10.

- Adroddodd y Cyngor y perfformiad gorau o ran canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn 2009-10 yng Nghymru, gyda chyfradd presenoldeb o 94.48 y cant. O ran presenoldeb ysgolion mewn ysgolion uwchradd, y Cyngor oedd y trydydd perfformiwr gorau yn 2009-10 gyda chyfradd presenoldeb o 91.8 y cant.

82 Rydym yn cydnabod na all cyfeirio at ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn unig ddarparu darlun cyflawn o ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol neu'r pwysau y mae'r Cyngor yn ei wynebu bob tro. Fodd bynnag, gan nad yw'r Cyngor wedi darparu llinell sylfaen gynhwysfawr ar sut mae'n bwriadu barnu ei lwyddiant yn y meysydd hyn neu nodi'n glir sut bydd ei ddinasyddion yn elwa, ar hyn o bryd y rhain yw'r unig fesurau sydd ar gael i farnu perfformiad. Credwn hefyd bod angen i gynlluniau'r Cyngor leihau effaith tlodi ar berfformiad addysgol a gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd angen cynnwys mwy o bethau a fydd yn dylanwadu ar y materion penodol hyn ac yn arwain at welliannau. Byddwn yn edrych a yw'r Cyngor wedi canfod ffyrdd o ehangu ei gynlluniau y flwyddyn nesaf.

# A yw Cyngor Sir Fynwy yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?

## Amcan gwella - Byddwn yn annog datblygiad economi leol fwy amrywiol, cadarn a ffyniannus ac yn dyfeisio strategaeth i greu gwaith

83 Mae ffocws y Cyngor ar gynyddu cyflogaeth a chreu economi leol amrywiol, cadarn a ffyniannus yn weithgarwch priodol a phwysig i ganolbwyntio arno yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

84 Mae gan Sir Fynwy gyfradd cyflogaeth uchel ac ar ddiwedd Rhagfyr 2009 amcangyfrifwyd bod 40,300 o drigolion mewn cyflogaeth yn y sir. O'r rhain, credwyd fod 29,100 yn cael eu cyflogi yn y sector preifat, 10,800 yn y sector cyhoeddus a 400 yn hunangyflogedig/annosbarthedig. Mae'r niferoedd o drigolion sy'n gweithio yn y gwasanaethau sector cyhoeddus yn Sir Fynwy ymhlith yr isaf yng Nghymru.

85 Ym mis Awst 2010, roedd gan Sir Fynwy yr ail nifer isaf o hawlwyr, gyda 1,121 o drigolion yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith (2.1 y cant o'r boblogaeth 16-64 oed). Dyma un o'r niferoedd isaf o blith siroedd Cymru.

86 Yn 2009, roedd cyfartaledd enillion wythnosol yn Sir Fynwy yn £468, sef trydydd chwartel y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2009, roedd enillion yn Sir Fynwy yn is na chyfartaledd Cymru, gyda'r bwlch yn cynyddu.

87 Yn 2010-11, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar sawl maes gweithredu allweddol.

88 Mae'r rhain fel a ganlyn:

- sefydlu dull newydd o hybu'r economi ac entrepreneuriaeth yn Sir Fynwy;
- gweithio gydag eraill i ddatblygu strategaeth ar gyfer creu swyddi yn Sir Fynwy;
- gweithredu saith rhaglen datblygu gwledig, pob un yn para tair blynedd, gyda'r nod o ddatblygu a gwella'r amgylchedd economaidd, busnes a chymunedol yn Sir Fynwy; a
- gweithredu Cynllun Cymunedol a Datblygu Economaidd i wella cyfleusterau cymunedol.

89 Rydym yn cydnabod y gall gweithredu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar greu swyddi fod o fudd uniongyrchol i bobl ddi-waith Sir Fynwy. Fodd bynnag, mae'r mesurau cynnydd a ddefnyddir i fesur eu llwyddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar sefydlu'r rhaglenni gwaith unigol yn hytrach nag adrodd ar nifer y swyddi sy'n cael eu creu yn sgil y mentrau hyn neu ostyngiad mewn diweithdra yn sgil y gwaith hwn yn Sir Fynwy.

90 Rydym yn cydnabod na fydd effaith gadarnhaol y mentrau newydd hyn yn cael ei gwireddu'n gyflym o bosibl, ond credwn y dylai'r Cyngor fod wedi cynnwys yr amrywiaeth o fesurau a gwybodaeth gyfredol ar gyfer yr holl ddangosyddion y mae'n bwriadu arddangos effaith fuddiol arnynt yn y dyfodol. Trwy gynnwys y mesurau hynm byddai dinasyddion yn gallu deall pa fanteision hirdymor y mae'r Cyngor yn ceisio'u sicrhau a'i fan cychwyn ar gyfer pob mesur. Byddai hefyd yn galluogi pobl leol i fod yn ymwybodol o effaith gwaith y Cyngor yn y dyfodol, a'i wneud yn atebol yn sgil hynny.

## A yw'r Cyngor yn adeiladu cymuned fwy diogel a chadarn?

### Amcan gwella – Byddwn yn gostwng effaith trais, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol ledled ein cymunedau yn Sir Fynwy

91 Mae cadw dinasyddion Sir Fynwy yn ddiogel yn bwysig i'r Cyngor a'i bartneriaid, ac mae nifer o fentrau a phrosiectau ar y cyd ar y gweill yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn benodol, mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni dau welliant ar gyfer dinasyddion yn 2010-11 - mynd i'r afael â gwerthu alcohol i gwsmeriaid dan oed drwy waith safonau masnach; a'i gwneud yn haws i bobl gael tacsis trwyddedig yn y nos yn y sir. Fodd bynnag, mae'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar wella llif gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ac nid yw'n glir sut bydd dinasyddion yn elwa ar y gwaith hwn.

92 Mae'r data diweddaraf ar droseddau'n awgrymu bod Sir Fynwy'n gwneud yn dda o gymharu ag ardaloedd eraill. Mae gan Sir Fynwy gyfradd droseddu sy'n bedair rhan o bump o gyfartaledd Cymru. Mae wedi gostwng yn gyson i dri chwarter y ffigur saith blynedd yn ôl. Mae cyfradd troseddu Sir Fynwy yn 61.83 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Y cyfrannau uchaf o'r troseddau hyn yw troseddau dwyn eraill (21 y cant) a difrod troseddol (20 y cant). Sir Fynwy oedd y seithfed ardal cyngor isaf am droseddau treisgar gydag anaf yn 2008-09. Y gyfradd o unigolion a gafodd eu hatgyfeirio i wasanaethau triniaeth am gamddefnyddio alcohol fesul 100,000 yn Sir Fynwy oedd yr isaf o bob awdurdod yn 2008-09.[9]

93 Rydym yn cydnabod bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent a gwasanaethau eraill i geisio canfod pa mor ddiogel yw ei gymunedau a'u gwneud yn ddiogelach. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol i ddeall y materion sy'n achosi problemau mewn ardaloedd lleol ac adeiladu cymunedau cryfach. Mae'r strategaeth Diogelwch Cymunedol yn nodi rhai materion lleol sy'n ymwneud â'r meysydd hyn ond ni thrafodir y rhain ymhellach yn y Cynllun Gwella. Hefyd, nid oes ffocws ar yr effeithiau iechyd cysylltiedig ac nid yw hyd a lled y materion y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy yn glir.

94 Mae Arolygwyr Prawf Ei Mawrhydi yn cynnal arolygiadau o waith gyda throseddwyr ifanc. Ym mis Medi 2010, cyhoeddwyd adroddiad ar waith ym maes troseddau ieuenctid yn yr ardal sy'n rhan o gynghorau Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy a Thorfaen. Archwiliodd y tîm arolygu ansawdd y gwaith a wneir i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, amddiffyn y cyhoedd drwy sicrhau'r risg leiaf bosibl o niwed i eraill a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae'r tîm yn gwneud asesiadau sy'n pennu bod angen gwelliant bach, cymedrol, sylweddol neu eithafol yn y dyfodol agos. Mewn perthynas â'r tri maes, asesodd y tîm bod angen gwelliant cymedrol. Yn gyffredinol, daeth y tîm i'r casgliad bod gan y gwasanaeth yn Sir Fynwy a Thorfaen ragolygon da ar sail staff ymrwymedig a chymwys a rheolwyr brwdfrydig a galluog. Gwnaeth y tîm argymhellion ar gyfer gwella, yn enwedig mewn perthynas ag asesu anghenion troseddwyr a chynllunio sut i ymateb iddynt, dogfennu gwybodaeth a chyfathrebu â gwasanaethau troseddau ieuenctid mewn ardaloedd eraill. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth lunio cynllun gweithredu.

9 Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, Atebion Iechyd Cymru

## Amcan gwella – Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i ddatblygu Prosiect Gwyrdd er mwyn datblygu opsiynau cynaliadwy yn lle tirlenwi

95 Mae'r amcan gwella hwn yn briodol i Sir Fynwy gan ei fod yn adlewyrchu ei flaenoriaethau a hefyd yn gwella ansawdd ei wasanaeth ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â phedwar cyngor cyfagos yn y De, yn gobeithio datblygu opsiwn amgen i dirlenwi ar gyfer gwastraff gweddilliol a, thrwy'r Prosiect Gwyrdd, mae'n ceisio comisiynu gwaith trin gwastraff gweddilliol ar gyfer 2016.

96 Mae gan y Cyngor wasanaeth rheoli gwastraff sy'n perfformio'n dda ar y cyfan ac sy'n cyflawni targedau gwastraff cyfredol ac mae ganddo gynlluniau ar y gweill i gyflawni targedau yn y dyfodol. Mae hanes llwyddiannus o sicrhau bod rheoli gwastraff yn gweithio. Mae'r cyhoedd yn hapus gyda'r gwasanaeth ac mae newidiadau diweddar i'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaeth wedi gostwng y costau a gwella'r perfformiad.

97 Mae'r camau gweithredu a gynigir i gyflawni'r amcan gwella yn nodi'r trywydd y dylid ei ddilyn gyda'r nod o ostwng y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu'r Prosiect Gwyrdd. Fodd bynnag, nid oes manylion wedi'u cynnwys yn y cynigion yn nodi'r gweithgareddau penodol a fydd yn cael eu cynnal, pryd y bydd y rhain yn cael eu cyflawni a beth fydd y manteision disgwyliedig. Yn yr un modd, ni chyfeirir llawer at waith partneriaid a sut maent yn cyfrannu at gyflawni nac at y ffordd y bydd gweithgarwch yn cael ei reoli'n fewnol.

98 Mae'r Cyngor wedi pennu rhai mesurau perfformiad yn y Cynllun Gwella Corfforaethol i fesur gwelliant dros amser. Hefyd, mae'r Cyngor yn cynnig rhoi'r gorau i gasglu data yn ôl y tri Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol sydd wedi'u defnyddio i fesur perfformiad gwasanaethau yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'n hollol glir sut mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn bwriadu mesur llwyddiant a dangos i ddinasyddion y manteision a fydd yn cael eu gwireddu drwy eu gwaith yn y maes hwn.

99 Mae darparu gwasanaethau gwastraff y Cyngor yn dibynnu'n fawr ar barhau i gael grant gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae pryderon y gallai newidiadau i gyllid, gan gynnwys cysylltiad arfaethedig rhwng y fethodoleg darparu gwasanaeth a ffefrir gan Lywodraeth y Cynulliad a chyllid, effeithio'n sylweddol ar berfformiad a chostau'r Cyngor yn y dyfodol.

## Amcan gwella – Byddwn yn hyrwyddo gostwng allyriannau carbon o adeiladau'r Cyngor a byddwn yn gweithio gydag eraill i ostwng allyriannau yn y gymuned ehangach

100 Credwn fod hwn yn amcan gwella pwysig gan ei fod yn ceisio cyflawni canlyniad y Cyngor bod dinasyddion Sir Fynwy yn elwa ar amgylchedd amrywiol, bywiog a chynaliadwy. Yn 2010-11, mae'r Cyngor yn cynnig darparu tair rhaglen waith. Mae gan y rhaglenni hyn fesurau cynnydd ynghlwm wrthynt hefyd. Dyma'r manylion:

- gweithio gydag Envirowise i ostwng gwastraff sy'n deillio o ganolfan hamdden, llyfrgell, siop-un-stop a Choed Glas gyda'r mesur cynnydd wedi'i ddiffinio fel asesiad gostwng gwastraff sydd ar gael ar gyfer adeiladau a enwir;

- sbarduno a darparu Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol ar gyfer tai gyda mesur cynnydd i gynyddu effeithlonrwydd ynni eiddo cymdeithasau tai yn Overmonnow a gostwng allyriannau $CO_2$;
- datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gostwng y defnydd o danwydd ac allyriannau o holl fflyd y Cyngor, gan gynnwys y defnydd o Adolygiad Fflyd Gwyrdd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni pan fydd ar gael yng Nghymru, a'r mesur cynnydd fydd chwblhau'r adolygiad fflyd gwyrdd o gerbydau'r Cyngor a diwygio canllawiau cynllunio i ystyried ffactorau teithio/trafnidiaeth.

101 Credwn y gallai cynigion y Cyngor gyfrannu at ostyngiad mewn allyriannau carbon ond gan nad yw'r mesurau cynnydd yn gynhwysfawr nac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, bydd yn anodd ei ddangos. Hefyd, mae'r amcan gwella yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r angen i ostwng allyriannau carbon ond nid yw'n nodi unrhyw gynigion ar gyfer cyflawni hyn.

102 O ran perfformiad cymharol, roedd y Cyngor yn ail chwartel o Gynghorau Cymru yn ei berfformiad o ran gostyngiad canrannol mewn allyriannau $CO_2$ yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig yn 2009-10, gan gofnodi sgôr o 4.99 y cant. Roedd hyn ddwywaith cymaint â chyfartaledd Cymru o 2.2 y cant ac yn welliant ar ei berfformiad yn 2008-09 sef 1.6 y cant.

# Beth ddylai Cyngor Sir Fynwy ei wneud?

103 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na fyddem yn dod o hyd i bethau sydd angen eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os ydym yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â nhw a byddwn yn dilyn yr hyn sy'n digwydd.

104 Mae angen i'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- pennu amcanion gwella a diweddaru'r Cynllun Gwella Corfforaethol i bennu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol yn glir;
- gweithredu systemau i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- gwella'r ffordd o reoli perfformiad;
- sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau'n cael eu cysoni i gynorthwyo'r rhaglen weddnewid; a
- hyfforddi a chynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio er mwyn iddo allu cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Cyngor i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus yn ei swyddogaethau.

**Cynigion newydd**

Dylai'r Cyngor:

- adolygu ei Gynllun Gwella i:
  - ddiffinio ei amcanion gwella yn fwy clir;
  - egluro'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni ganddynt;
  - diffinio sut beth fydd llwyddiant;
  - dangos sut mae perfformiad yn cymharu ag eraill;
  - dangos sut bydd pobl Sir Fynwy ar eu hennill yn sgil hynny.
- pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu yng nghyd-destun llai o adnoddau;
- ymgynghori â'i amrywiaeth lawn o randdeiliaid a darparu cyfleoedd priodol i ddinasyddion lywio a dylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol;
- sicrhau bod y fframwaith cynllun gwasanaeth newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn y 12 mis nesa a datblygu systemau i reoli perfformiad staff yn well wrth gyflawni blaenoriaethau;
- nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth er mwyn monitro perfformiad, i sicrhau bod safonau gwasanaeth derbyniol yn cael eu cyflawni.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith a rheolaeth ariannol Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[10]

10 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Gweithgaredd ategol pwysig i Swyddfa Archwilio Cymru yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol holl reoleiddwyr perthnasol awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith y maent yn ymgymryd ag ef.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn pennu'r ffi ar gyfer ei waith yn archwilio perfformiad gwaith y mae'n ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Rheoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn gyda'r awdurdod. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 tan fis Mawrth 2011 yr un fath â'r ffi a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy

Aelodau Cynulliad Sir Fynwy yw:

- Nick Ramsay, Trefynwy, Plaid Geidwadol Cymru
- John Griffiths, Dwyrain Casnewydd, y Blaid Lafur

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain De Cymru yw:

- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- Veronica German, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru

Aelodau Seneddol Sir Fynwy yw:

- David Davies, Trefynwy (Ceidwadwyr)
- Jessica Morden, Dwyrain Casnewydd (Llafur) y mae ei hetholaeth yn cynnwys adrannau etholiadol Castell Caldicot, Dewstow, Green Lane, Mill, Rogiet, Severn, The Elms a'r West End yn Sir Fynwy

Yn 2008-09, roedd gwariant refeniw gros y Cyngor yn £164 miliwn, sef £1,859 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd y Cyngor £20 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. £1,144.68 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog yn Sir Fynwy yn 2009-10. Bydd yn codi 3.85 y cant i £1,188.71 y flwyddyn yn 2010-11. Mae 47 y cant o dai Sir Fynwy yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae yna 43 o gynghorwyr ar gyfer Sir Fynwy sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 27 o Geidwadwyr
- 6 o'r Blaid Lafur
- 5 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 4 o Blaid Cymru/Annibynnol
- 1 Annibynnol

**Tîm Rheoli Corfforaethol**

Prif Weithredwr Sir Fynwy yw Paul Matthews. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Gynghorydd Polisi'r Cyngor.

Mae'r tîm Arweinwyr yn cynnwys:

- Moyna Wilkinson, Dirprwy Brif Weithredwr
- Andy Keep, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
- Kellie Beirne, Prif Swyddog Adfywio a Diwylliant
- Simon Burch, Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Joy Robson, Pennaeth Cyllid
- Farooq Dastgir, Pennaeth Trawsnewid

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'i wasanaethau. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud er mwyn gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn mor fuan â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.sirfynwy.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn:
Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Cwmbrân NP44 2XH.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010.

**Mae Cyngor Sir Fynwy yn datblygu agwedd uchelgeisiol at sicrhau gwelliannau i'w gymunedau yn yr hinsawdd ariannol heriol gyfredol. Bydd angen arweiniad a rheolaeth glir a chyson ar y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu'r manteision arfaethedig.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Nid oedd y dull blaenorol o wella'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y sefydliad nac ei gysylltu â chyflawni blaenoriaethau corfforaethol clir, ond mae dull newydd yn cael ei ddatblygu.

Yn y gorffennol er bod y Cyngor wedi darparu gwasanaethau da ar y cyfan, nid yw wedi mynd ati'n gyson herio ffyrdd sefydledig o weithio.

Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu rhaglen o newidiadau mewnol sylweddol mawr eu hangen gyda'r potensial i sicrhau arbedion a gwelliannau.

Bydd canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion o'r rhaglen uchelgeisiol hon yn dibynnu ar ba mor dda y mae'r Cyngor yn arwain ac yn rheoli ei agenda gweddnewid.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

O dan arweiniad clir, mae rhaglen weddnewid uchelgeisiol y Cyngor yn esblygu'n gyflym ac mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau ategol a'u cysoni â blaenoriaethau.

Mae arweiniad newydd yn cyfrannu'n allweddol at ddatblygu dulliau newydd i weddnewid y Cyngor yn gyflym.

Mae gweithio mewn partneriaeth a systemau rheoli ariannol yn cefnogi gwelliannau'n gadarnhaol ac yn cael eu hintegreiddio o fewn rhaglen weddnewid, er bod rhagor o waith i'w wneud.

Mae enghreifftiau da o wneud penderfyniadau, rheoli a chynllunio, a chefnogi gwelliannau o fewn gwasanaethau. Mae angen i'r Cyngor ddangos yn gyson bod y rhain yn arwain at welliannau ar gyfer ei drigolion.

Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y rhaglen weddnewid yn cael ei defnyddio'n fwy eang o fewn y sefydliad a sicrhau ei bod yn cael ei chefnogi'n gyson gan drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu, perfformiad a rheoli asedau.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad y tu mewn i glawr cefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Fynwy

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailfeddwl ynglŷn â sut i adrodd ar y canfyddiadau o'r archwiliad ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y byddwch yn ymwybodol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion yr adroddwyd arnynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cydymffurfio â'r gofynion adrodd ar wella perfformiad ac ariannol ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos ac mae angen mynd i'r afael â nifer o faterion cyfrifyddu a gwendidau mewn budd-daliadau tai**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, yn cadarnhau eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol yn ystod yr archwiliad o’r cyfrifon:

- roedd prosesau cau cyfrifon y Cyngor yn effeithiol ar y cyfan, er bod nifer o addasiadau wedi’u gwneud fel rhan o’r archwiliad a bod angen gwneud gwelliannau pellach o hyd o ran cyfrifyddu asedau sefydlog;
- gweithredwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig ar gyfer PFI yn gywir, er bod angen gwneud gwaith pellach yn awr i weithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11;
- mae Datganiad y Cyngor ar Reolaeth Fewnol yn nodi’r gwendidau yn ei ddulliau rheoli mewnol yn gywir ac mae angen gweithio’n awr i ddatblygu datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer y flwyddyn gyfredol; a
- pharatowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae fy adolygiad o drefniadau’r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar archwilio’r cyfrifon a’r gwaith a gwblhawyd fel rhan o’r Mesur Llywodraeth Leol. Mae prif ganfyddiadau’r gwaith olaf yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, rwyf yn tynnu’ch sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau effeithiol i reoli’r gyllideb ar waith ac mae cynlluniau ariannol tymor canolig wedi eu datblygu’n dda, ond mae’r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol, o ran cyllid refeniw a chyllid cyfalaf. Mae’r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyfeirio ymhellach at hyn.
- Mae trefniadau rheoli grantiau cyffredinol y Cyngor wedi parhau i wella yn ystod 2009-10 ond mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â gweinyddu’r Hawliad am Grant Cymhorthdal Budd-dal Tai a’r Dreth Gyngor o hyd.

Mae Cynllun Gwella 2010-11 y Cyngor yn cydymffurfio â’r gofynion statudol ac yn rhoi golwg gytbwys o’i berfformiad yn 2009.

Cyhoeddwyd tystysgrif gennyf yn cadarnhau bod y gwaith o archwilio’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 30 Medi 2010.

Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 yn unol â’r hyn a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Sir Fynwy

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Cymunedol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.sirfynwy.gov.uk. Yr amcanion yw:

- Byddwn yn gostwng effaith trais, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol ledled ein cymunedau yn Sir Fynwy.
- Byddwn yn dwyn ynghyd asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sector annibynnol mewn model unigol o wasanaethau cymunedol fel rhan o Brosiect Eiddilwch Gwent.
- Byddwn yn gwella amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed a'u gofalwyr.
- Byddwn yn archwilio ansawdd tai i ddiwallu anghenion pobl hŷn.
- Byddwn yn datblygu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn Overmonnow a gogledd y Fenni i sicrhau bod yr un lefel o wasanaeth yn cael ei chynnig i'r ddwy gymuned.
- Byddwn yn cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a diwygio'r ffordd y darperir addysg. Byddwn yn gwneud hyn i godi safonau addysg, gwella sgiliau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar berfformiad addysgol.
- Byddwn yn annog datblygiad economi leol fwy amrywiol, cadarn a ffyniannus ac yn dyfeisio strategaeth i greu gwaith.
- Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i ddatblygu Prosiect Gwyrdd er mwyn datblygu opsiynau cynaliadwy yn lle tirlenwi.
- Byddwn yn hyrwyddo gostwng allyriannau carbon o adeiladau'r Cyngor a byddwn yn gweithio gydag eraill i ostwng allyriannau yn y gymuned ehangach.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw’r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o un o’r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefan a chynlluniau gwella’r Awdurdod ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol